Trefdraeth, Sir Benfro

Tref fach arfordirol yw Trefdraeth. Mae'r dref yng ngogledd Sir Benfro ar lannau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Yn yr haf mae nifer sylweddol o dwristiaid yn y dref ac mae'r caffis a'r tafarndai yn bobl i gyd. Mae llawer o feysydd gwersylla yn yr ardal ac yn y dref ei hun mae sawl gwesty a nifer o dai haf.

Mae hen harbwr yn Nhrefdraeth o'r enw'r Parrog. Mae clwb cychod y dref yn y Parrog ac yn ystod misoedd yr haf mae llawer o bobl yn mynd yno i hwylio.  Ar gyrion y dref, dros Afon Nyfer, mae traeth enfawr. Mae tywod y traeth yn ddu ac mae hawl mynd â cheir arno.

Os dych chi'n un sy'n hoff iawn o fynd am dro mae Trefdraeth yn ddelfrydol. Gallwch chi gerdded ar hyd yr arfordir neu i fyny Carn Ingli. Mynydd bach yw Carn Ingli ac mae golygfa ysblennydd o'r copa. Gallwch chi weld y Môr Celtaidd a'r fferi sy'n mynd i Iwerddon o borthladd Abergwaun. Hefyd, mae modd gweld Cwm Gwaun a Mynyddoedd y Preseli.

Yn y gorffennol, y Gymraeg oedd iaith fwyaf cyffredin y fro. Yn anffodus mae niferoedd siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ar hyd y blynyddoedd. Ond y Gymraeg yw iaith yr ysgol gynradd leol ac mae pedwar deg dau y cant o drigolion y dref yn siarad yr iaith.

jackpulmanslater.com